

Dyfodol Llwyddiannus | Bwrdd Newid

Cylch Gorchwyl – Diwygiwyd Ionawr 2017

Diben

Mae Bwrdd Newid Dyfodol Llwyddiannus yn gyfrifol am y gwaith o gyflawni'r argymhellion a nodir yn *Dyfodol Llwyddiannus*, Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru (Yr Athro G. Donaldson, Chwefror 2015) yn Llwyddiannus. Fodd bynnag, mae gwaith y Bwrdd hefyd yn cynnwys goruchwyllo'r canlynol:

- gweithredu'r argymhellion a nodir yn *Addysgu Athrawon Yfory*: Opsiynau ynglŷn â dyfodol addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru;
- cysoni â'r broses o gyflawni'r gwaith a ddechreuwyd fel y Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg, y cyfeirir ato bellach fel y dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol.

Mae'r Bwrdd felly'n chwarae rôl flaenllaw wrth gydlynu'r gwaith o gyflawni'r elfennau sy'n ymwneud â newid yn *Cymwys am Oes 2*, cynllun gwelliant ar gyfer ysgolion yng Nghymru 2017 - 2021.

Mae *Cymwys am Oes 2* yn canolbwyntio ar gyflawni pum prif amcan:

- **Lles a thegwch** – Cefnogi'r gwaith o wireddu'r ymrwymiad cenedlaethol i sicrhau tegwch a lles.
- **Addysgeg** – sicrhau gwelliannau mewn ansawdd addysgu drwy sicrhau bod athrawon a staff cymorth yn meddu ar wybodaeth a sgiliau damcaniaethol ac ymarferol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, i ddatblygu potensial llawn pob dysgwr.
- **Cwricwlwm ac asesu** – creu cwricwlwm a ategir gan y Pedwar Diben yn *Dyfodol Llwyddiannus*, gyda ffocws clir ar asesu ar gyfer dysgu er mwyn cefnogi pob dysgwr: a chymwysterau a fydd yn eu galluogi i fod yn uchelgeisiol er mwyn cyflawni eu potensial.
- **Arwain** – adeiladu capasiti arweinwyr addysg ym mhob ysgol a phob partner allweddol arall (yn yr haen ganol ac yn Llywodraeth Cymru) i ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arfer, datblygu polisi a chydweithio ar bob lefel yn y system er mwyn creu ethos arweinyddiaeth system a meithrin hyder yn y daith a rennir tuag at welliant addysgol.
- **System hunanwella** – datblygu cyfrifoldeb ar y cyd dyfnach am y system addysg gyfan a weithredir drwy bartneriaethau hirdymor, gonest a llawn ymddiriedaeth gyda llinellau cyfrifoldeb clir ac atebolrwydd a rennir yn seiliedig ar yr egwyddor o sybsidiaredd.

Mae angen gwaith cydgysylltiedig ar draws y system addysg gyfan yng Nghymru er mwyn cyflawni'r meysydd rhyng-gysylltiedig hynod gymhleth hyn. Diben y Bwrdd Newid felly yw dwyn y prif sefydliadau o fewn y sector ynghyd er mwyn cydamseru ac arwain y gwaith hwnnw.

Dyfodol Llwyddiannus | Bwrdd Newid

Cylch Gorchwyl – Diwygiwyd Ionawr 2017

Cefndir

Cyhoeddwyd adroddiad Graham Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*, ym mis Chwefror 2015 ac mae'n cynnwys argymhellion pellgyrhaeddol ac uchelgeisiol ar gyfer cwricwlwm newydd yng Nghymru.

Mae'r adroddiad yn nodi 68 o argymhellion sy'n cwmpasu'r cwricwlwm, asesu, addysgeg ac atebolrwydd system ehangach. Mae'r argymhellion yn rhyngddibynnol a rhaid eu hystyried fel pecyn, felly mae angen gwaith cydlynu a chynllunio clos.

Mae'r argymhellion a nodir yn *Dyfodol Llwyddiannus* yn cyd-fynd â'r rhai a gyflwynwyd eisoes i Lywodraeth Cymru yn adroddiadau'r Athro John Furlong (Mawrth 2015), yr Athro Robert Hill (Mehefin 2013) a'r Athro Ralph Tabberer (Hydref 2012).

Amserlen

Mae'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yn cael eu datblygu ar y cyd â gweithwyr addysg proffesiynol ledled Cymru gyda'r nod o sicrhau eu bod ar gael i leoliadau ac ysgolion mor gynnar â mis Medi 2018. Ein huchelgais yw y bydd lleoliadau ac ysgolion yn defnyddio'r cwricwlwm newydd i ategu dysgu ac addysgu i blant a phobl ifanc rhwng 3 ac 16 oed o 2021 ymlaen.

Un o egwyddorion allweddol rhaglen newid AGA yw cydweithio â Sefydliadau Addysg Uwch i'w tywys ar hyd y daith gwelliant a thwf. Ym mis Mawrth 2016, gwnaethom wahodd ymgysylltiad cynnar ar ddrafft cyntaf o'r Meini Prawf Achredu er mwyn ystyried dull gweithredu newydd, mwy heriol ar gyfer AGA yng Nghymru. I ddechrau, bydd achredu yn canolbwyntio ar raglenni blwyddyn ôl-raddedig a raglenni tair blynedd israddedig AGA gyda'r nod o'u marchnata i ddarpar fyfyrwyr erbyn mis Medi 2018 a'u cyflwyno o fis Medi 2019 ymlaen. Caiff rhaglen newid ar wahân i ddatblygu raglenni AGA dwy flynedd a phedair blynedd eu hystyried yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i adolygiad Diamond o drefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr.

Bydd y gwaith a ddechreuwyd fel y Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg yn helpu gweithwyr addysg proffesiynol i gyflwyno'r cwricwlwm newydd drwy ddatblygu dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol. Caiff y dull gweithredu ar gyfer Dysgu Proffesiynol a'r cwricwlwm newydd eu datblygu ar y cyd er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau dysgu proffesiynol uniongyrchol a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu datblygu mewn ffordd gynlluniedig a strwythuredig. Bydd dull gweithredu digidol uwch ar gyfer dysgu proffesiynol ar gael erbyn mis Medi 2017 a bydd dull cenedlaethol cwbl integredig ar gyfer dysgu proffesiynol yn barod erbyn mis Medi 2018.

Dyfodol Llwyddiannus | Bwrdd Newid

Cylch Gorchwyl – Diwygiwyd Ionawr 2017

Tasgau Allweddol

Mae'r Bwrdd Newid yn gyfrifol am:

- Rhoi cyfeiriad strategol a goruchwyllo'r gwaith o gyflawni'r elfennau amrywiol sy'n rhan o'r agenda diwygio addysg, gan sicrhau bod cydlyniaeth rhyngddynt a'u bod yn cyflawni o fewn paramedrau cytûn a buddiannau a nodwyd.
- Gweithio'n agos gyda Chadeirydd y Grŵp Cynghori Annibynnol i geisio cyngor arbenigol ar faterion gweithredu manwl er mwyn sicrhau bod y gwaith o gyflawni'r diwygiadau yn adlewyrchu bwriad yr argymhellion yn *Dyfodol Llwyddiannus* yn briodol.
- Cynghori Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn rheolaidd ar y cynnydd ar bob cam o'r rhaglen, pan gyrhaeddir cerrig milltir allweddol ac ar ôl cwblhau llifau gwaith neu brosiectau cyfansoddol.
- Goruchwyllo cynnydd cydrannau rhaglenni amrywiol yn erbyn cynllun lefel strategol (Haen 1), gan gynnwys cynnydd yn erbyn cerrig milltir allweddol.
- Datblygu a goruchwyllo cynnydd a chydlyniant y cynlluniau rhaglen lefel sefydliad (Haen 2) amrywiol, gan gynnwys: olrhain cynnydd yn erbyn cerrig milltir allweddol; dwyn ei gilydd i gyfrif am yr hyn a gyflawnir; a chomisiynu tasgau neu becynnau gwaith ychwanegol pan fo angen.
- Monitro risgiau strategol, lefel uchel; problemau; a rhyng-ddibyniaethau.
- Arwain a rhoi cyfeiriad strategol i Strategaeth Gyfathrebu eang ei chwmpas, gan sicrhau bod rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn cael eu cynnwys drwy gydol y broses o gyflawni'r rhaglen – gan gynnwys cyfathrebu penderfyniadau a chyhoeddiadau allweddol.

Amllder y Cyfarfodydd

Bydd y Bwrdd yn cwrdd bob chwarter rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2017. Adolygir yr amledd ar ôl y cyfnod hwn.

Ysgrifenyddiaeth

Darperir cymorth ysgrifenyddiaeth gan Dîm Rhaglen Diwygio'r Cwricwlwm.

Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn anelu at ddsbarthu'r papurau bum niwrnod gwaith cyn pob cyfarfod. Dylid dosbarthu cofnodion llawn y cyfarfod o fewn pum niwrnod gwaith.

Dyfodol Llwyddiannus | Bwrdd Newid

Cylch Gorchwyl – Diwygiwyd Ionawr 2017

Aelodaeth

| Aelodau Allanol |
|--|
| Debbie Hartevelde (Gwasanaeth Cyflawni Addysg) |
| Hannah Woodhouse (Consortiwm Canolbarth y De) |
| Betsan O'Connor (ERW) |
| Arwyn Thomas (GwE) |
| Meilyr Rowlands (Estyn) |
| Ian Budd (CCAC) |
| Philip Blaker (Cymwysterau Cymru) |
| Chris Llewellyn (CLILC) |
| Hayden Llewellyn (Cyngor y Gweithlu Addysg) |
| Anne Robertson (Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol Cymru) |
| Iestyn Davies (Colegau Cymru) |
| Amanda Wilkinson (Prifysgolion Cymru) |
| Yr Athro Graham Donaldson (Sylwedydd a Chadeirydd y Grŵp Cyngori Annibynnol) |
| Llywodraeth Cymru |
| Owen Evans (Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol a Chadeirydd) |
| Steve Davies (Cyfarwyddwr, Addysg) |
| Huw Morris (Cyfarwyddwr, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes) |
| Karen Cornish (Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diwygio'r Cwricwlwm) |
| Greg Whiting (Rheolwr y Rhaglen, Diwygio'r Cwricwlwm) |
| Lowri Jones (Pennaeth, Cyfathrebu Strategol a Marchnata) |
| Jane Pugsley (Ysgrifenyddiaeth) |

Dyfodol Llwyddiannus | Bwrdd Newid

Cylch Gorchwyl – Diwygiwyd Ionawr 2017

Rolau a Chyfrifoldebau Aelodau'r Bwrdd

Mae Aelodau'r Bwrdd yn gyfrifol am y canlynol:

- Cyflawni'r cynlluniau sefydliadol (Haen 2) y maent yn gyfrifol amdanynt, a chyflwyno adroddiadau arnynt mewn ffordd amserol;
- Hyrwyddo'r rhaglen a'i hamcanion cyflawni o fewn eu sefydliadau eu hunain a gyda sefydliadau a rhanddeiliaid allanol;
- Darllen yr holl ddeunyddiau a gyflwynir iddynt er mwyn eu hystyried a rhoi barn ac enghreifftiau perthnasol o brofiad i'w trafod yn ystod cyfarfod y Bwrdd;
- Rhaeadru gwybodaeth, camau gweithredu a phenderfyniadau sy'n deillio o gyfarfodydd y Bwrdd i'r timau/sefydliadau y maent yn eu cynrychioli mewn ffordd amserol, er mwyn sicrhau y gwneir cynnydd parhaus.

Dylai aelodau geisio bod yn bresennol ymhob cyfarfod. Gall Dirprwyon a Enwir fynychu os oes angen er mwyn sicrhau bod gan y Bwrdd gworwm. Fodd bynnag, rhaid i'r rhai sy'n mynychu fod â'r awdurdod a'r gallu i wneud penderfyniadau a gweithredu'r camau sy'n deillio o drafodaethau a chasgliadau'r Bwrdd Newid.

Gellir gwahodd aelodau ychwanegol i fynychu'n barhaol neu ar sail ad hoc wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Adolygu

Caiff y Cylch Gorchwyl hwn ei adolygu a'i ddiwygio ym mis Ionawr 2018.